

Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl

Cynllun gweithredu 2017–21



Cynulleidfa

Y gweithlu ysgolion, a'r rhai mewn lleoliadau eraill sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, rhieni a gofalwyr, partneriaid yn y llywodraeth a phartneriaid cenedlaethol, gan gynnwys consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, undebau gweithlu ac awdurdodau esgobaethol.

Trosolwg

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi sut y bydd y system ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys dosbarthiadau chweched dosbarth, yn symud ymlaen yn ystod y cyfnod tan 2021 er mwyn sicrhau y caiff cwricwlwm newydd ei roi ar waith yn effeithiol. Caiff y gwaith hwn ei ategu gan bolisiau a lunnir mewn partneriaeth yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a'u gwerthuso'n effeithiol ar bob cam. Mae'r ddogfen hon yn dwyn ynghyd gamau gweithredu a roddir ar waith gan gyhoeddiadau eraill Llywodraeth Cymru neu ein partneriaid.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost:

Addysg-CynllunioBusnesaLlywodraethiant@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth

Cymru yn llyw.cymru

Dogfennau cysylltiedig

Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (2017); Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes (2015); Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru (2014); Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015); Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru (2015)

WG32363

WG33030

ISBN digidol 978 1 78859 604 6

ISBN argraffu 978 1 78859 605 3

OGL © Hawlfraint y Goron Medi 2017

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	2
Ein taith ddiwygio	6
Ein system addysg yn 2021	10
Camau gweithredu allweddol	14
Cwricwlwm sy'n gweddnewid	17
Y pedwar amcan galluogi	23
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	40
Casgliad	42
Rhagor o wybodaeth	44

Rhagair gan y Gweinidog



Rydym wedi ymrwymo i lwyddiant a lles pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau personol. Mae tegwch a rhagoriaeth yn mynd law yn llaw ac ni allwn gael un ar draul y llall. Ni ddylai daearyddiaeth, amddifadedd na phrofiadau plentyndod atal dysgwyr rhag gwredu eu potensial. Bydd ein dysgwyr yn gydnerth, yn ddychmygus, yn dosturiol ac yn uchelgeisiol – byddant yn anelu'n uchel ac yn cyflawni eu nodau.

Er mwyn cyflawni hynny, bydd angen gweithlu addysg o safon uchel sy'n egniol a brwdfrydig a brwdfrydedd ac sydd wedi ymrwymo i sicrhau dysgu parhaus i bawb. Bydd ein proffesiwn addysgu, gyda phwyslais ar arweinyddiaeth gref a dysgu proffesiynol, yn helpu i fodloni'r disgwyliaid uchel a rennir gennym i gyd ar gyfer ein dysgwyr, ein hysgolion a'n system addysg.

Mae ffyniant economaidd, cydlyniant cymdeithasol a lles cenedl yn seiliedig ar system addysg gref a llwyddiannus. Dyna pam rwy'n dweud mai ein ffocws ar godi safonau ysgolion, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr a chyflwyno system addysg sy'n meithrin balchder cenedlaethol a hyder y cyhoedd yw cenhadaeth ein cenedl.

Mae'r ymrwymiad i godi safonau i bawb yn ymrwymiad i'r llywodraeth. Drwy weithio ar draws ffiniau gallwn fod yn hyderus o weld Cymru ffyniannus lle mai'r addysg, o'r oedran cynharach, fydd y sylfaen ar gyfer oes llawn dysgu a chyflawni. Mae'r cynllun gweithredu diwygiedig hwn wedi'i lunio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu', un o themâu allweddol *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* (2017). Byddwn yn cefnogi pobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial drwy weithredu'r camau gweithredu yn y cynllun hwn. Byddwn yn meithrin uchelgais ac yn annog dysgu am oes. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn meddu ar y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid.

Mae'n amlwg i mi, drwy fy nhrafodaethau ledled y wlad ers i mi ddod yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, fod optimistaeth cyffredin ynglŷn â'r

ffordd ymlaen. Mae llawer o'n hysgolion a'u staff a'n pobl ifanc eisoes yn cyrraedd safonau uchel iawn a cheir enghreifftiau o arfer o'r radd flaenaf ym mhob rhan o'r wlad. Yma yng Nghymru, mae gennym lawer i fod yn falch ohono, ond cydnabyddir y gallwn, gyda'n gilydd, fod yn well byth. Gallwn gefnogi ein holl bobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial, a byddwn yn gwneud hynny.

Mae'r gwaith o lunio ein cwricwlwm newydd yn mynd rhagddo ers cryn amser bellach, a bydd yn sail i'n holl ddiwygiadau i addysg. Bydd safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon, darpariaeth gryfach ar gyfer addysg gychwynnol athrawon, trefniadau asesu ffurfiannol a'n Hacademi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol sy'n datblygu yn ategu'r broses o roi *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (2015) ar waith a sicrhau llif di-dor ym mhob rhan o'n system hunanwella i ysgolion.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn adeiladu ar *Cymwys am Oes: Cynllun gweithredu gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn 2014, ac mae'n cadarnhau ein huchelgais y bydd dysgwyr yn mwynhau dysgu ac addysgu sy'n eu hysbrydoli i gyflawni mewn cymuned addysg gydweithredol ac arloesol.

Wrth gyflwyno ein cwricwlwm gweddnewidiol newydd, bydd angen i ni ganolbwyntio ar y pedwar amcan galluogi allweddol canlynol.

- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.
- Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles.
- Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

“Cenhadaeth ein cenedl yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol.”

Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

O fewn yr amcanion cysylltiedig hyn, ceir ystod o gamau gweithredu a fydd yn sicrhau system ysgolion well i Gymru. Rhaid i rieni a gofawyr ledled y wlad fod yn hyderus bod eu plant yn mynychu ysgolion sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol, o dan arweiniad athrawon talentog sy'n llawn brwdfrydedd, ac sy'n cyflwyno cymwysterau sy'n eu grymuso ar gyfer heriau a chyffleoedd personol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Rydym wedi cyrraedd pwynt hollbwysig ar ein taith ddiwygio addysg. Ar un llaw, ni allwn guddio ein siom am ganlyniadau diweddar y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA). Er ein bod yn cydnabod na all PISA fesur popeth, ceir cytundeb barn eang bod yr hyn y mae'n ei fesur yn bwysig. Mae PISA yn adlewyrchu'r sgiliau sydd eu hangen i rymuso ein pobl ifanc yn briodol ar gyfer y byd cymhleth, rhyng-gysylltiedig a chyffrous sydd ohoni. Mae'n gofyn y cwestiynau y mae cyflogwyr yn mynnu ein bod yn eu hateb.

Ar y llaw arall, ac yn fwy calonogol, mae'r asesydd perfformiad systemau addysg a gydnabyddir yn fyd-eang, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), wedi rhoi rhai negeseuon clir iawn i ni. Yn syml, mae'n ein hannog i ddal ein tir a pharhau i weithio mewn partneriaeth â'r gweithlu addysg ehangach gyda'r tymor hwy mewn golwg. Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni ei argymhellion ac rwy'n ffyddiog ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Rydym i gyd am i'n plant gael addysg dda, ac iddynt fod yn ddiogel ac yn hapus. Rydym hefyd am iddynt gael eu trin yn deg a chael elwa ar lefelau uchel o les. Ar gyfer llawer o'n pobl ifanc, bydd angen ffocws cydweithredol o'r newydd yn ein holl wasanaethau cyhoeddus er mwyn gwredu'r uchelgeisiau hynny.

Mae cenhadaeth ein cenedl yn uchelgeisiol, yn arloesol ac yn hyderus wrth i ni weithio tuag at gyflwyno system addysg ddiwygiedig a llwyddiannus. Drwy ddysgu gyda'n gilydd, gallwn ddatblygu Cymru well. ”

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Mae ffyniant, cydlyniant a lles cenedl yn seiliedig ar system addysg lwyddiannus.



Ein taith ddiwygio

Wrth i Gymru ymroi i wireddu gweledigaeth newydd o lwyddiant i bob dysgwr, gallwn fyfyrion ar ein treftadaeth gyfoethog a'n hanes balch o hybu mynediad at addysg: o Griffith Jones a'i ysgolion cylchynol yn y ddeunawfed ganrif; a'r rhoddion gan y dosbarthiadau gwledig a gweithiol a helpodd i sefydlu ein prifysgolion a'n colegau; i fod ar flaen y gad ym maes addysg uwchradd a ariennir drwy arian cyhoeddus.

Mae ein diwygiadau gweddnewidiol yn digwydd mewn amgylchedd heriol. Mae hyn yn cynnwys cyni cyllidol parhaus ledled y DU, yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Brexit, y ffordd mae bywydau economaidd a bywydau gwaith yn cael eu gweddnewid gan dechnoleg, a'r gwahaniaethau cynyddol rhwng systemau cymwysterau ledled gwledydd Prydain. Mae'r rhain i gyd yn heriau y gallwn eu hwynebu ac yn gyfleoedd y gallwn achub arnynt, ac mae'n rhaid i ni wneud hynny.

Er bod yr heriau hyn yn fawr, maent yn pwysleisio'r ffaith bod diwygio addysg yn hanfodol i ddyfodol Cymru fel cymdeithas gref, ffyniannus a chydlynol. Gwlad fach ydym ni, ond mae ein harloesedd, ein huchelgeisiau mawr a'n parodrwydd i weithio a dysgu gyda goreuon y byd yn denu sylw. Gallwn fod yn falch bod y gymuned ryngwladol yn edrych yn llawn diddordeb ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru, ond mae llawer mwy i'w wneud.

Ers 2013, rydym wedi bod yn agored i adolygiadau gan y gymuned ryngwladol o arbenigwyr. Bydd hynny'n parhau, ac rydym yn bwriadu gwahodd OECD i gynnal rhagor o adolygiadau ar adegau allweddol yn ystod ein taith diwygio addysg genedlaethol. Yn syml, er mwyn bod ymhlith y goreuon rhaid i ni ddysgu gan y goreuon.

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Yn y cynllun, nodwyd ymrwymiad i ddatblygu system addysg well a chydweithredol i Gymru. Dair blynedd yn ddiweddarach, mae'n amlwg bellach fod y gymuned ysgolion a'i phartneriaid wedi gwneud cynnydd mewn sawl maes allweddol. Ymhlith y rhain mae gwell deilliannau TGAU a lleihau'r bwlch o ran perfformiad rhwng dysgwyr o gefndiroedd tlotach a'u cyfoedion.

Nid yw cenhadaeth ein cenedl yn gorffen wrth gatiâu'r ysgol. Mae ein taith ddiwygio, sy'n canolbwyntio ar godi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, yn cael ei hatgyfnerthu ymhellach gan welliannau i gymorth i fyfyrwyr a'r system addysg ôl-orfodol. Bydd ein dull gweithredu arloesol yn sicrhau bod pob myfyriwr yn cael cymorth gyda'i gostau byw. Bydd hefyd yn buddsoddi yn ein prifysgolion ac yn sicrhau y bydd yn dod yn haws i bobl ddysgu a meithrin sgiliau trwy gydol eu gyrfaedd.

Gwlad fach ydym ni, ond mae ein harloesedd, ein huchelgeisiau mawr a'n parodrwydd i weithio a dysgu gyda goreuon y byd yn denu sylw. Mae dull gweithredu Cymru yn ystyried pob agwedd ar y system addysg.



Canran y dysgwyr yng Nghymru, ym Mlwyddyn 11/yn 15 oed sy'n ennill Lefel 2 cynwysedig (pum gradd TGAU A*-C/cymwysterau cyfatebol gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg)

	2011	2012	2013	2014	2015	Dysgwyr ym Mlwyddyn 11	Fersiwn 15 oed*
Lefel 2 (cynwysedig)	50.1	51.1	52.7	55.4	57.9	60.3	59.8
Lefel 2 (cynwysedig) dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim	22.0	23.4	25.8	27.8	31.6	35.6	35.2
Y gwahaniaeth ar ffurf canran	28.1	27.7	26.9	27.7	26.3	24.7	24.6

* Data wedi'u cyfrifo i fod mor agos â phosibl i'r diffiniad mewn blynyddoedd cynt.

** Ni chyhoeddir data 2017 wedi'u dilysu tan fis Rhagfyr 2017.

Ym mis Tachwedd 2016, gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg OECD i archwilio'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar ddiwygiadau addysg a rhoi sylw i'n cynnydd hyd yma. Gwelodd OECD fod cynnydd wedi cael ei wneud ers ei ymweliad diwethaf yn 2014 mewn nifer o feysydd polisi a bod newid sylweddol wedi bod yn ein dull o wella ysgolion – i ffwrdd oddi wrth bolisi tameidiog a byrdymor a thuang at un a arweinir gan weledigaeth hirdymor.

Gwelwyd bod y daith ddiwygio yng Nghymru wedi'i nodweddu'n gynyddol gan gydweithio agos rhwng y llywodraeth a'r sector addysg, gydag ymrwymiad i wella 'yn weledol ar bob lefel o'r system addysg'.

Argymhellodd yr adroddiad y dylai blaenoriaethau allweddol y llywodraeth fod:

- sicrhau rhagor o gydlyniant rhwng yr amryw fentrau diwygio, gan sicrhau bod y cydlyniant hwn yn cael ei werthuso ar adegau allweddol yn ystod y daith
- parhau â'r broses o lunio polisiâu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, gan nodi'n benodol sut mae athrawon, staff cymorth, arweinwyr ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill yn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth ar gyfer dysgwyr yng Nghymru
- parhau i atgyfnerthu seilwaith gwella ysgolion Cymru drwy ddatblygu gallu consortia rhanbarthol ac ansawdd eu cydberthnasau â sefydliadau addysg athrawon
- gwella'r defnydd o dystiolaeth ac ymchwil a'i gysylltiad â pholisi ymhellach drwy barhau i fuddsoddi mewn meithrin gallu o ran ymchwil ac asesu ar bob lefel o'r system
- cyfathrebu'n glir ynghylch taith diwygio addysg Cymru, gan gynnwys sicrhau ein bod yn dathlu'r llwyddiannau a gawn ar hyd y ffordd.

Mewn ymateb, y ddogfen hon, *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017-21*, yw ein cynllun gweithredu diwygiedig. Bydd yn ategu 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu', sef un o'r themâu allweddol fel y nodir yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*, a bydd yn helpu i ddatblygu system ysgolion a fydd yn meithrin uchelgais yn ein dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial, yn gosod y sylfeini ar gyfer dysgu a chyflawni gydol oes, ac yn eu grymuso â'r sgiliau addas ar gyfer byd sy'n newid.

Er mwyn cyflawni ein diwygiadau ym mhob rhan o'r system, bydd angen ymrwymiad sylweddol i gydweithio'n effeithiol yn ogystal ag integreiddio gwasanaethau lle y bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y proffesiwn addysgu a'r gweithlu addysg ehangach, ein partneriaid allweddol ymhlith awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, gwasanaethau rhanbarthol, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, Cymwysterau Cymru, sefydliadau addysg uwch ac eraill. Er mwyn rhoi'r cynllun hwn ar waith yn llwyddiannus, bydd angen ymgysylltu effeithiol a gonest rhwng pob agwedd ar y system addysg. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r amodau a fydd yn galluogi hyn i ddigwydd. Wrth gyflawni hyn, rydym hefyd yn bwriadu cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus ehangach a'r trydydd sector lle y bo angen.



Ein system addysg yn 2021

Erbyn 2021, bydd ein rhaglen o weddnewid wedi hen sefydlu. Bydd gan ysgolion brofiad sylweddol o gydweithio i symud y cwricwlwm newydd ymlaen, a bydd ein diwygiadau i addysg gychwynnol athrawon ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi hen ennill eu plwyf. Yn yr un modd, bydd cyfraniad cynyddol yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol yn meithrin gallu arweinwyr y dyfodol a bydd diwylliant ac egwyddorion y system hunanwella i ysgolion wedi'u gwreiddio ymhellach.

Model tair haen system addysg Cymru

Llywodraeth Cymru

Haen
1

- Cynllunio a llunio polisiau – drwy gydweithio seiliedig ar dystiolaeth.
- Rheoli modelau atebolrwydd o fewn y broses ddemocrataidd.
- Ymgysylltu â phob haen a chefnogi'r gwaith o feithrin gallu er mwyn gwella'r system.

Pedwar consortiwm rhanbarthol, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, byrddau arholi ac addysg uwch

Haen
2

- Defnyddio eu gwybodaeth am ysgolion ac ymchwil i hwyluso a chefnogi'r broses o rannu arfer gorau a chydweithio i wella deilliannau dysgwyr, o fewn system hunanwella i ysgolion.

Ysgolion

Haen
3

- Cydweithio i roi amrywiaeth o brofiadau i blant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol er mwyn gwella eu dysgu a'u lles.

Ein bwriad yw y bydd ein **dysgwyr** yn:

- elwa ar brofiadau yn yr ysgol a fydd yn eu helpu i ddod yn oedolion ifanc sy'n:
 - ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
 - cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
 - dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
 - unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas
- meddu ar sgiliau digidol, llythrennedd a rhifedd lefel uchel perthnasol
- cynyddol ddwyieithog gyda gafael cryf ar ieithoedd eraill.

Er mwyn datblygu ein dysgwyr yn y ffyrdd hyn, bydd y **proffesiwn addysgu** yn:

- broffesiwn o safon uchel sy'n gydweithredol ac yn cael ei ysgogi gan ddealltwriaeth ddofn o addysgeg a gwybodaeth bwnc
- ymgymryd â gwaith ymchwil, yn hyddysg ac yn dysgu o ragoriaeth ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- atyniadol gyda morâl uchel a llawer o foddhad proffesiynol
- cael cefnogaeth dda gan ystod o weithwyr cymorth dysgu proffesiynol sy'n gallu darparu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pob plentyn
- edrych tuag allan ac wedi ymrwymo i godi safonau o fewn ysgolion a rhyngddynt
- creu amgylcheddau bywiog, cynnes a gofalgwr sy'n ysbrydoli dysgu
- cael ei arwain yn dda gan arweinwyr a fydd yn sicrhau y gall pob athro wella drwy gydweithio effeithiol, arloesi, dysgu proffesiynol a chyfleoedd i roi arweinyddiaeth broffesiynol i eraill.

Er mwyn i ni gyflawni hyn ar gyfer ein gweithlu, bydd ein **hysgolion** yn:

- dangos nodweddion sefydliadau sy'n dysgu effeithiol (gweler 'Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu' ar dudalen 12)
- sefydliadau dysgu bywiog, cynhwysol, agored, cysylltiedig, creadigol sydd wedi'u lleoli yn y gymuned ac sy'n weithredol mewn rhwydweithiau ehangach
- cael eu harwain yn dda gan weithwyr addysg proffesiynol sydd â dealltwriaeth ddeallusol ac ymarferol o arweinyddiaeth yn ein system, a feithrinwyd drwy ddull gweithredu cenedlaethol cyffredin ac a gefnogir gan drefniadau llywodraethu effeithiol.

I gefnogi ein hysgolion, bydd ein **haen ganol** (awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol) yn:

- glir ynghylch eu rolau allweddol fel arweinwyr gwaith cynllunio effeithiol a darparwyr deallusrwydd i mewn i'r system er mwyn galluogi pob ysgol i chwarae ei rhan i wella deilliannau a lles dysgwyr
- gwybodus am anghydraddoldebau addysgol o fewn partneriaethau/cynghreiriau a rhyngddynt, ac yn gallu mynd i'r afael â hwy drwy symud gwybodaeth ac arbenigedd; maent yn allweddol o ran hwyluso cydweithio ar draws sectorau a rhwng asiantaethau i gefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf
- cydweithio ledled Cymru i symud arbenigedd a sicrhau cyn lleied â phosibl o ddyblygu ymdrech a chost – er mwyn gwneud hyn, bydd y sefydliadau hyn yn parhau i weithredu ar raddfa ranbarthol er mwyn meithrin gallu a galluogi gwasanaethau i dargedu adnoddau a gweithgarwch yn effeithiol i ysgolion sy'n cydweithio
- cael ei harwain yn dda gan weithwyr addysg proffesiynol sydd â dealltwriaeth ddeallusol ac ymarferol, a dealltwriaeth a rennir, o arweinyddiaeth addysg yn ein system – bydd arweinwyr yn cael eu hysgogi gan bedwar diben y cwricwlwm, yn cynnig gweledigaeth o safon uchel ac yn meithrin partneriaethau cryf sy'n datblygu.

Er mwyn i'n hysgolion a'n haen ganol allu tyfu yn y ffyrdd a amlinellir uchod, bydd ein **partneriaid allweddol eraill yn yr haen ganol** (fel Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Cymwysterau Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg) yn:

- dangos nodweddion sefydliadau sy'n dysgu effeithiol, gan ddysgu gan y goreuon yn y byd er mwyn cefnogi ein taith ddiwygio genedlaethol
- ceisio sicrhau bod pob sector yn meithrin partneriaethau effeithiol er mwyn datblygu gweithlu o safon uchel i ddiwallu anghenion pob dysgwr
- llunio modelau atebolrwydd er mwyn hybu newid yn y system, gan osgoi cymell sefydliadau i weithredu er eu budd eu hunain
- cael eu harwain yn dda gan weithwyr proffesiynol hyderus ac uchelgeisiol sy'n rhannu ein gweledigaeth ar gyfer system hunanwella ac yn cydnabod eu rôl hanfodol yn y gwaith o gyflwyno newid cadarnhaol.

Er mwyn cyflawni'r uchod, byddwn yn parhau â'r ymrwymiad clir i gyflwyno ein cwricwlwm newydd yn effeithiol, yn seiliedig ar y pedwar amcan galluogi sy'n ofynnol i sicrhau ei lwyddiant. Atgyfnerthir hyn gan waith datblygu ar y cyd, deialog agored a gonest ag addysgwyr a gwaith llunio polisiau yn seiliedig ar dystiolaeth.

Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu

Uchelgais Cymru yw y bydd pob ysgol yn datblygu fel sefydliad sy'n dysgu, yn unol ag egwyddorion OECD. Mae ysgolion sy'n sefydliadau sy'n dysgu yn gallu addasu'n gyflymach a rhoi cynnig ar ddulliau gweithredu newydd, sy'n eu galluogi i wella dysgu a deilliannau i'w holl ddysgwyr.

Mae ysgol yng Nghymru sy'n sefydliad sy'n dysgu yn canolbwyntio ar wireddu saith ' dimensiwn'.

- Datblygu a rhannu gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar ddysgu pob myfyriwr.
- Creu a chefnogi cyfleoedd dysgu parhaus i bob aelod o staff.
- Hybu dysgu fel tîm a chydweithio ymhlith yr holl staff.
- Meithrin diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio.
- Gwreiddio systemau ar gyfer casglu a chyfnawid gwybodaeth a dysg.
- Dysgu gyda'r amgylchedd allanol a'r system ddysgu ehangach, a dysgu ganddynt.
- Modelu a meithrin arweinyddiaeth ddysgu.

Am ragor o fanylion, gweler www.oecd.org/education/school/school-learning-organisation.pdf (Saesneg yn unig).

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i **Lywodraeth Cymru**:



- fod yn ddewr wrth sicrhau'r gorau i'n pobl ifanc a'r proffesiwn addysgu
- cynnal ymrwymiad i addysg gynhwysol sy'n wasanaeth cyhoeddus ac i ysgolion sydd wedi'u cynllunio i wasanaethu eu cymunedau
- datblygu rhwydwaith o gymorth o amgylch y gweithlu addysg a'i ddysgwyr drwy atgyfnerthu cysylltiadau â gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gydnabod pwysigrwydd hanfodol lles meddyliol a chorfforol i ddysgwyr ac addysgwyr
- cydweithio â phartneriaid allweddol i ddatblygu modelau atebolrwydd hyblyg ac ymatebol sy'n dwyn ysgolion i gyfrif ac yn cefnogi addysg plant heb amharu ar arloesedd na rhannu arfer da yn effeithiol
- cyfleu ein taith diwygio addysg yn effeithiol a dathlu llwyddiannau ym mhob rhan o'r system er mwyn meithrin balchder cenedlaethol a hyder y cyhoedd yn yr hyn rydym yn ei wneud.

Os bydd yr holl bartneriaid allweddol yn bodloni'r disgwyliadau hyn, erbyn 2021 bydd Cymru wedi gwneud cynnydd da tuag at feddu ar system ysgolion tair haen ddeallus a chydweithredol sy'n gysylltiedig â gweledigaeth glir ar gyfer ein holl ddysgwyr.



Camau gweithredu allweddol

Mewn ystafelloedd dosbarth ac ysgolion ledled Cymru, rydym yn adeiladu ar sylfeini cryf i gyflwyno system addysg sy'n meithrin balchder cenedlaethol a hyder y cyhoedd. Gyda'n gilydd, mae pob un ohonom yn gyfrifol am sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf. Mae'r cynllun hwn yn nodi rhai o'n camau gweithredu allweddol fel y'u dangosir isod.

<p>Ehangu'r Grant Datblygu Disgyblion, sef y Grant Amddifadedd Disgyblion gynt, gan adeiladu ar ei lwyddiant o ran lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chwalu'r rhwystrau y mae dysgwyr yn eu hwynebu.</p>	<p>Ymrwymo i asesu ffurfiannol, gan gefnogi cynnydd wedi'i bersonoli (gan gynnwys ar gyfer ein dysgwyr mwyaf abl), ynghyd â'n cymwysterau TGAU a Safon Uwch diwygiedig a thrwyadl newydd.</p>			<p>Cyflwyno cwricwlwm newydd sy'n gweddnewid, gan wreiddio'r pedwar diben a sicrhau bod pawb yn canolbwyntio ar safonau llythrennedd a rhifedd uwch, a sicrhau bod ein pobl ifanc yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog.</p>	<p>Lleihau biwrocratiaeth a baich gwaith diangen drwy egluro'r hyn sydd ei angen a'r hyn nad oes ei angen yn yr ystafell ddosbarth, a gwella'r defnydd o reolwyr busnes i gefnogi arweinwyr ysgol.</p>	<p>Gwella cyfran y dysgwyr sy'n perfformio ar y lefelau uchaf mewn asesiadau PISA, drwy fynd i'r afael â'r gyfran gymharol isel sy'n cyrraedd y lefelau uchaf; bydd hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni ein nod hirdymor o sgorio 500 ym mhob maes o fewn PISA 2021.</p>
	<p>Hybu gweithio rhwng ysgolion, gan gynnwys ffederasiynau, clystyrau a chymunedau dysgu proffesiynol.</p>	<p>Adeiladu ar ein hymrwymiad i degwch mewn addysg drwy ddeddfwriaeth ADY a fydd yn atgyfnerthu darpariaeth a chymorth i bob dysgwr ym mhob lleoliad iaith.</p>		<p>Datblygu a chyflwyno Fframwaith Asesu a Gwerthuso newydd, gan gefnogi'r gwaith o wireddu pedwar diben addysg.</p>		<p>Diwygio ein harlwy hyfforddi athrawon, gan atgyfnerthu partneriaethau rhwng prifysgolion ac ysgolion fel eu bod yn cynllunio ac yn cynnal rhaglenni ar y cyd.</p>
<p>Sefydlu ein Hacademi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol newydd a fydd yn pennu, yn cefnogi ac yn ysbrydoli arweinwyr ym mhob rhan o'r system.</p>		<p>Sicrhau ein bod yn ystyried tegwch a rhagoriaeth ar y cyd, gan nodi ffyrdd newydd ac effeithiol o fesur a gwella lles dysgwyr.</p>		<p>Parhau i uwchraddio ansawdd adeiladau ysgolion, gyda chyllid ychwanegol o £1.1 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf dros y pedair blynedd nesaf drwy ein Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.</p>	<p>Cyflwyno Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (a safonau pwrpasol ar gyfer staff cymorth), gan hybu rhagoriaeth addysgu a chefnogi dysgu proffesiynol gydol gyrfu, cydweithio, arloesi ac arweinyddiaeth effeithiol.</p>	<p>Lleihau maint dosbarthiadau babanod, gan dargedu'r rhai a fydd yn elwa fwyaf a chefnogi athrawon i godi safonau i bawb.</p>

Cwricwlwm sy'n gweddnewid

Bydd llunio cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu sy'n gweddnewid yn hanfodol i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd ganddynt safonau llythrennedd a rhifedd uwch, byddant yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, a byddant yn datblygu'n feddylwyr mentrus, creadigol a beirniadol. Bydd ein cwricwlwm cenedlaethol yn seiliedig ar degwch a rhagoriaeth ac yn helpu i feithrin ein pobl ifanc yn ddinasyddion hyderus, galluog a gofalgar.

Rydym yn symud ymlaen i sicrhau y bydd y cwricwlwm newydd, a gefnogir yn eang, ar gael i bob dysgwr yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hynny, mae angen i ni ddylunio cwricwlwm llawn a'r trefniadau asesu cysylltiedig, ac mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo gydag ysgolion a rhanddeiliaid arbenigol ar hyn o bryd. Un o egwyddorion allweddol y cwricwlwm newydd yw bod yn rhaid iddo fod yn briodol i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth. Mae hyn yn golygu mwy nag addasu'r cwricwlwm presennol yn unig.

Mae'r cwricwlwm newydd yn cyflwyno 'camau cynnydd' yn lle'r cyfnodau allweddol presennol, a bydd wedi'i drefnu'n Chwe Maes Dysgu a Phrofiad – celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg. Bydd y goblygiadau i ysgolion i'w gweld ar sawl lefel – mae a wnelo hyn â mwy na newid cynnwys gwersi yn unig.

Fel conglfaen ein hymdrech gyfunol i godi safonau, bydd y cwricwlwm newydd yn ddibynnol ar gysoni pedwar amcan galluogi y mae'n rhaid i bob un ohonynt gael ei gyflwyno'n effeithiol er mwyn cael yr effaith weddnewidiol rydym yn dyheu amdani. Mae pob amcan yn gysylltiedig â'r gweddill a dim ond pan fydd pob un ohonynt ar waith y byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer ein system addysg a'i dysgwyr.

Drwy ganolbwyntio ar yr amcanion hyn, a atgyfnerthir gan ffocws ar godi safonau a disgygliadau, gallwn fod yn hyderus y byddwn yn cyflawni dros bawb.

Mae cynnydd da eisoes wedi'i wneud a, gyda'n gilydd, rydym wedi:

- cyhoeddi *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (2015) a ffurfio rhwydwaith o fwy na 175 o ysgolion arloesi i arwain y gwaith o ddatblygu a chefnogi'r cwricwlwm newydd
- diweddarar'r Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol a chyhoeddi Cynllun Gweithredu y Cyfnod Sylfaen
- cyflwyno cymwysterau trwyadl a lunnir yng Nghymru, fel manylebau TGAU allweddol diwygiedig, Bagloriaeth Cymru a chymwysterau UG a Safon Uwch
- sefydlu Cymwysterau Cymru i weithredu fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod tan 2021, ac yng nghyd-destun pedwar diben y cwricwlwm newydd (gweler y diagram ar dudalen 19), byddwn yn:


- defnyddio ymchwil addysgeg ddibynadwy a chydweithio'n effeithiol ym mhob rhan o'r system i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm cenedlaethol o'r radd flaenaf a fydd yn helpu i godi safonau i bawb yng Nghymru
- cynllunio trefniadau asesu newydd a'u rhoi ar waith, gyda mwy o bwyslais ar asesu ffurfiannol; bydd hyn yn cynnwys datblygu asesiadau wedi'u personoli sydd ar gyfrifiadur ac sy'n gallu addasu i ddarparu galluoedd diagnostig gwell i'n holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai mwyaf abl, a sicrhau hefyd bod trefniadau atebolrwydd newydd yn addas i'r diben ac yn cefnogi'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn effeithiol

- cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer y cwricwlwm a'r trefniadau asesu diwygiedig gan gadarnhau egwyddor fframwaith cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru, a ddiffinnir drwy gyfres eang o ddyletswyddau, ac a fydd yn rhoi rhyddid i'n hymarferwyr ddefnyddio eu proffesiynoldeb a'u creadigrwydd i ddiwallu anghenion pob dysgwr
- datblygu dull gweithredu gweddnewidiol mewn perthynas â dysgu, addysgu ac asesu'r Gymraeg gyda'r nod o sicrhau y bydd pob dysgwr yn gallu siarad yr iaith pan fyddant yn gadael yr ysgol
- ymestyn a hybu profiadau ehangach dysgwyr fel bod y cwricwlwm yn gyfoethog ac yn amrywiol, yn ogystal â bod yn gynhwysol, yn eang ac yn gytbwys, a bod dysgwyr yn elwa ar y cyfleoedd dysgu gorau posibl yn yr ysgol a'r tu allan iddi.


I gyflawni hyn, byddwn yn gwneud y canlynol.

<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu'r fframwaith ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad gan gynnwys y gofynion allweddol ar gyfer symud tuag at gontinwmm iaith ar gyfer y Gymraeg. • Sicrhau bod adnoddau a gomisiynir gennym yn cael eu llunio yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd i ategu ein cwricwlwm newydd. • Datblygu dulliau gweithredu mewn perthynas â dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn gallu cynllunio'n well ar gyfer newid cwricwlwm. 	Hydref 2017
<ul style="list-style-type: none"> • Dechrau cyflwyno, yn raddol, asesiadau addasol wedi'u personoli (i ddisodli profion darllen a rhifedd ar bapur). 	Yn ystod hydref 2018
<ul style="list-style-type: none"> • Darparu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd i ysgolion iddynt roi adborth terfynol arnynt. 	Erbyn Pasg 2019
<ul style="list-style-type: none"> • Y cwricwlwm terfynol. 	Erbyn mis Ionawr 2020
<ul style="list-style-type: none"> • Pob lleoliad ac ysgol a gynhelir yn defnyddio'r cwricwlwm newydd. 	Erbyn 1 Medi 2022

Mae cenhadaeth ein cenedl yn uchelgeisiol, yn arloesol ac yn hyderus.



Llinell amser cyflwyno'r cwricwlwm a chymwysterau



* Gan gynnwys asesu.

** NNEM – Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Mathemateg.
NNEST – Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Y pedwar amcan galluogi

Er mwyn cyflwyno'n llwyddiannus ein cwricwlwm a'n trefniadau asesu newydd sy'n gweddnewid, mae'n amlwg y bydd angen nifer o ddiwygiadau galluogi cydgysylltiedig. Mae'r diwygiadau hyn yn cael eu datblygu ar y cyd â gweithwyr addysg proffesiynol, ac maent yn cynnwys ystyriaeth o arfer rhagorol o bedwar ban byd. Er mwyn cyflwyno cwricwlwm newydd, bydd angen ffocws clir ar y pedwar amcan galluogi allweddol canlynol.

- 1 Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.
- 2 Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.
- 3 Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwmo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles.
- 4 Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

Rydym i gyd am i'n plant gael addysg dda, ac iddynt fod yn ddiogel ac yn hapus.



Amcan galluogi 1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

Ni all system addysg fod yn well na safon ei hathrawon, ac ni ellir cyflwyno ein cwricwlwm newydd heb broffesiwn addysgu uchelgeisiol a gefnogir yn dda. Mae gan y systemau addysg sy'n perfformio orau yn y byd addysgwyr a staff cymorth egniol a brwdfrydig sydd wedi ymrwymo i ddysgu parhaus. Byddwn yn cefnogi athrawon yng Nghymru i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes sy'n myfyrio ar eu hymarfer eu hunain a'i wella er mwyn cymell ac ysbrydoli'r plant a'r bobl ifanc yn eu gofal.

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid allweddol i sicrhau y bydd pob athro yn:

- elwa ar gyfleoedd i wella safon ei addysgeg, wrth anelu at fod yn athro gwell
- cael cefnogaeth effeithiol gan gydweithwyr eraill yn y gweithlu addysg
- cael cyfleoedd i ddysgu'n broffesiynol mewn diwylliant a arweinir gan ymchwil, gan wybod bod athrawon rhagorol yn ddysgwyr effeithiol
- ymuno â'r proffesiwn ar ôl cael addysg gychwynnol athrawon sydd wedi gwella'n sylweddol

Hyd yma, rydym wedi:

- sefydlu Cyngor y Gweithlu Addysg ac wedi cydnabod gwerth gweithlu cynyddol broffesiynol drwy gofrestru'r gweithlu ysgolion ac addysg bellach yn ei gyfanrwydd
- gweithio gyda'n partneriaid addysg uwch ac ysgolion i gynllunio ar gyfer gweddnewid addysg gychwynnol athrawon

- sefydlu pedwar consortiwm rhanbarthol i ganolbwyntio ar wella ysgolion drwy gydweithio
- gwella amgylcheddau dysgu mewn ysgolion drwy fuddsoddiad gwerth £1.4 biliwn gan awdurdodau lleol ac esgobaethol a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif
- creu Hwb, sef ein llwyfan dysgu Cymru gyfan, sydd bellach yn cael ei ddefnyddio gan fwy na 500,000 o bobl.

Yn ystod y cyfnod tan 2021, byddwn yn:

- atgyfnerthu addysg gychwynnol athrawon drwy ddefnyddio meini prawf achredu newydd a fydd yn disgwyl i sefydliadau addysg uwch a'u partneriaethau ag ysgolion gydweithio yn y broses o gynllunio a chynnal rhaglenni hyfforddi athrawon o safon uchel
- denu mwy o ymgeiswyr o safon a graddedigion aeddfed galluog iawn i'r proffesiwn addysgu a'u cadw drwy Raglen wedi'i hailddylunio i Athrawon Graddedig
- datblygu safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon ac aelodau eraill o'r gweithlu addysg a fydd yn canolbwyntio ar elfennau hanfodol addysgu llwyddiannus, ymgynghori ynghylch y safonau hynny a'u lansio; byddwn hefyd yn datblygu safonau ar gyfer staff cymorth a fydd yn eu galluogi i wella eu sgiliau ac ymrwymo i ddysgu proffesiynol ac yn hwyluso llwybrau cliriach i rôl cynorthwyydd addysgu lefel uwch

- datblygu dull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas â dysgu proffesiynol gydol gyrfa (gweler 'Blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol' yn y golofn nesaf) sy'n meithrin gallu ar ôl addysg gychwynnol athrawon ac sydd wedi'i wreiddio mewn ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chydweithio effeithiol
- sefydlu dull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas â lleihau maint dosbarthiadau babanod er mwyn gwella safon y dysgu a'r addysgu i'r rhai y mae amddifadedd yn cael yr effaith fwyaf andwyol arnynt ac i gefnogi datblygiad parhaus egwyddorion ac arfer gorau'r Cyfnod Sylfaen
- sefydlu systemau mwy effeithiol ar gyfer cynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod digon o athrawon medrus, gan gynnwys y rhai sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a phobl yn gweithio yn yr ystod eang o rolau ADY, a datblygu modelau amgen er mwyn sicrhau bod digon o athrawon cyflenwi o safon i ysgolion
- parhau â'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif er mwyn darparu amgylcheddau dysgu sy'n diwallu anghenion pob dysgwr ac yn sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb sy'n ei dewis, a chefnogi gwneud defnydd gwell o ysgolion i ddarparu gwasanaethau estynedig i'w cymunedau, gan gynnwys canolfannau dysgu cymunedol.

I asesu cynnydd yn y maes hwn, byddwn yn:

- defnyddio arolygon o'r gweithlu i werthuso hyder y proffesiwn o ran cyflwyno'r cwricwlwm newydd
- gweithio gydag Estyn wrth iddo werthuso safon addysg gychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol ar y gwahanol haenau ac ymateb yn ôl yr angen
- monitro'r galw am staff mewn meysydd arbenigol o'i gymharu â'r cyflenwad, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- monitro i weld bod digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i ddysgwyr.

Blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd yn hollbwysig ein bod yn grymuso ein gweithlu addysg i gyflawni pedwar diben ein cwricwlwm newydd ym mhob cyd-destun ac yn gwella safon yr asesu ar gyfer dysgu.

Yn y byrdymor, er mwyn meithrin gallu, rydym yn cydnabod bod angen gwneud cynnydd cyflym o ran cefnogi ein gweithwyr addysg proffesiynol i:

- ddefnyddio'r technolegau a'r sgiliau perthnasol i weddnewid cymhwysedd digidol ein dysgwyr
- gwella ymarfer yn yr ystafell ddosbarth yn y pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) cyn cyflwyno'r Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd a chysiau Safon Uwch diwygiedig
- rhannu arfer gorau o ran addysgu yn y Cyfnod Sylfaen ym mhob lleoliad/ysgol
- diwallu anghenion pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn unol â gofynion deddfwriaeth newydd
- addysgu Cymraeg fel iaith fyw a sicrhau y gall niferoedd mwy weithio'n effeithiol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- gwella safon addysgu er mwyn ymestyn ein dysgwyr mwyaf abl ym mhob lleoliad/ysgol, gan gynnwys gwella deilliannau i ddysgwyr yn ein dosbarthiadau chweched dosbarth
- sicrhau'r arferion diogelu mwyaf effeithiol (gan gynnwys diogelwch ar-lein) a chefnogi lles gwell drwy ddatblygu gweithlu sy'n ymwybodol o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod
- annog tueddiadau ymddygiad cadarnhaol a gwell trefniadau pontio ar gyfer ein holl ddysgwyr ar bob adeg allweddol.

I roi ein cynllun ar waith, byddwn yn gwneud y canlynol.

<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu bwrdd achredu ffurfiol i achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon, a fydd yn weithredol o fis Medi 2019. • Gweithio ar basio Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. • Darparu'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth i'w defnyddio mewn ysgolion. • Cefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybrau ar gyfer cynorthwyyr addysgu lefel uwch – i'w gytuno a'i gyflwyno gan gonsortia rhanbarthol. • Lansio'r fframwaith dysgu proffesiynol digidol a rhaglenni ar gyfer ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu. • Cyflwyno dull gweithredu cenedlaethol i leihau maint dosbarthiadau babanod. 	<p>Yn ystod hydref 2017</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi athrawon a phenaethiaid mewn swydd i fabwysiadu safonau proffesiynol newydd. • Darparu safonau proffesiynol newydd i'w defnyddio mewn rhaglenni addysg gychwynnol athrawon. • Lansio dull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas â dysgu proffesiynol (gan gynnwys athrawon/ymarferwyr, staff cymorth dysgu a staff cyflenwi). • Lansio Cynllun Datblygu'r Gweithlu trosfwaol, gan gynnwys ffocws ar ysgolion bach a gwledig, meithrin sgiliau iaith Gymraeg a gwella safon y gweithlu cyflenwi. 	<p>Erbyn hydref 2018</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Bydd pob myfyriwr sy'n dechrau rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yn gweithio i safonau proffesiynol newydd. • Datblygu fframwaith ar gyfer system cyflog ac amodau sy'n cyfrannu at broffesiwn addysgu sydd wedi'i ysgogi a fydd yn sail i'r gwaith o gyflwyno ein cwricwlwm newydd. • Cynnal y gweithgarwch statudol cyntaf i gasglu data ar y gweithlu er mwyn llywio gwaith cynllunio'r gweithlu a phenderfyniadau ynghylch polisiau yn well. 	<p>Erbyn hydref 2019</p>

Athrawon ddylai fod y myfyrwyr mwyaf ymroddedig yn yr ystafell ddosbarth. Byddwn yn eu cefnogi i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes er mwyn helpu i godi safonau i'n holl bobl ifanc.

Amcan galluogi 2: Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau

Er mwyn cyflawni cenhadaeth ein cenedl o ddiwygio addysg, mae ar Gymru angen arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sydd wedi'u paratoi a'u cefnogi'n dda i arwain eu sefydliadau drwy'n newidiadau sydd ar droed. Yn dilyn ei ymweliad â Chymru yn 2014, dywedodd OECD y dylem drin datblygu arweinyddiaeth y system fel un o brif sbardunau diwygio addysg. Felly, bydd hybu a chefnogi arweinyddiaeth effeithiol a chydweithredol yn ganolog i'n diwygiadau.

Bydd sefydlu Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol newydd, ochr yn ochr â safonau arweinyddiaeth proffesiynol sy'n gyson â'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon, yn sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel o'n system addysg yn cael eu cefnogi'n dda i feithrin ac ysbrydoli cydweithwyr ac i gydweithio er mwyn gwreiddio'r cwricwlwm newydd.

Hyd yma, rydym wedi:

- cydweithio â'r consortia rhanbarthol i addasu'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) er mwyn paratoi darpar benaethiaid yn fwy effeithiol
- adolygu'r fframwaith llywodraethu ysgolion presennol ac ymgynghori yn ei gylch
- cydweithio ag arweinwyr i ddatblygu safonau arweinyddiaeth proffesiynol newydd ar gyfer ysgolion.

Yn ystod y cyfnod tan 2021, byddwn yn:

- sefydlu a datblygu Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol a fydd yn denu, yn meithrin ac yn ysbrydoli arweinwyr nawr ac yn y dyfodol ym mhob rhan o'r system mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- cefnogi'r gwaith o roi Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ar waith a fydd yn gwreiddio rôl penaethiaid fel arweinwyr newid yn ein system
- datblygu opsiynau i sicrhau cyrff llywodraethu mwy hyblyg sy'n seiliedig ar sgiliau ac ehangu'r defnydd o reolwyr busnes hyfedr i roi cymorth mwy effeithiol i arweinwyr ysgolion.

I asesu cynnydd yn y maes hwn, byddwn yn:

- gallu adnabod ystod ehangach o gyfleoedd sy'n codi i ddatblygu arweinwyr presennol ac arweinwyr y dyfodol
- dangos gwelliant yn nifer yr ymgeiswyr o safon ar gyfer swyddi arwain mewn ysgolion
- dangos bod cymorth mwy effeithiol yn cael ei roi i arweinwyr ysgolion gan gorff cynyddol o reolwyr busnes a chyrff llywodraethu effeithiol.

I roi ein cynllun ar waith, byddwn yn gwneud y canlynol.

<ul style="list-style-type: none"> • Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ar gael i bob athro ac arweinydd eu mabwysiadu o fis Medi 2018. • Consortia rhanbarthol i barhau i gydweithio i sicrhau bod cymorth i arweinwyr ysgol wedi'i alinio'n effeithiol. 	Yn ystod hydref 2017
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfansoddi'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol yn ffurfiol. • Ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch llywodraethu ysgolion gyda chynigion ar gyfer fframwaith rheoleiddio diwygiedig. 	Erbyn haf 2018
<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod y rhaglenni arweinyddiaeth cyntaf i gael eu hardystio gan yr Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol ar gael. • Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) i fod ar gael i ategu'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ac i ymbaratoi arweinwyr yn well ar gyfer cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. 	Erbyn hydref 2018
<ul style="list-style-type: none"> • Portffolio sylweddol o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth wedi'u hardystio i fod ar gael ar gyfer y gymuned addysg. 	Erbyn hydref 2019

Yng Nghymru, mae angen arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio, ac sydd hefyd yn ymrwymedig i godi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.



Amcan galluogi 3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles

Rhaid i bob dysgwr gael ei gefnogi i fod yn barod yn emosiynol ac yn gorfforol i ddysgu mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Er mwyn sicrhau tegwch, mae angen i ni sicrhau bod y system, ar lefel ysgolion, ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol, yn ystyried yr heriau unigryw sy'n wynebu unigolion neu grwpiau o ddysgwyr, ac yn ymateb i'r heriau hynny. Byddwn yn atgyfnerthu trefniadau gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwella profiadau plant yn ystod plentyndod cynnar a sicrhau dealltwriaeth gyffredin o bwysigrwydd y mil diwrnod cyntaf ym mywyd plentyn.

Bydd ein cwricwlwm ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn helpu ysgolion i ganolbwyntio'n effeithiol ar les dysgwyr, tegwch a rhagoriaeth. Rhaid parchu pob dysgwr a'i herio i gyflawni hyd eithaf ei allu, gan gynnwys ein dysgwyr mwyaf abl, a'i gefnogi i oresgyn rhwystrau sy'n ei atal rhag dysgu ar yr un pryd. Mae plant a phobl ifanc sydd â chydberthnasau cryf ac ymdeimlad cadarnhaol o'u hunain – ac sy'n gallu deall a rheoli eu hiechyd a'u hemosiynau eu hunain – mewn sefyllfa well i gyflawni eu potensial llawn yn y dyfodol.

Drwy weithio mewn partneriaeth, rydym yn benderfynol na ddylai unrhyw her rwystro unrhyw ddysgwr rhag cyflawni eu potensial, gan gynnwys y dysgwyr hynny sy'n cael sawl profiad andwyol yn ystod plentyndod.

Hyd yma, rydym wedi:

- rhoi *Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrrhaeddiad yn ysgolion Cymru* (2014) ar waith ac wedi cyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion, sef y Grant Amddifadedd Disgyblion gynt, er mwyn chwalu'r rhwystrau y mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn eu hwynebu, ac mae'r canlyniadau bellach yn dangos gwelliannau i'r dysgwyr hynny ym mhob cyfnod allweddol
- cyhoeddi canllawiau newydd ar ddiogelu mewn addysg – *Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002* (2015) – er mwyn sicrhau bod gwasanaethau addysg yn cael eu cefnogi i ddiogelu lles eu dysgwyr, gan gydweithio ag asiantaethau ymchwiliol lle y bo angen
- ffurfio panel o arbenigwyr i arwain gwelliannau mewn addysg rhyw a chydberthnasau.

Yn ystod y cyfnod tan 2021, byddwn yn:

- ehangu'r Grant Datblygu Disgyblion fel y gall ysgolion wella cyfleoedd bywyd ein dysgwyr iau mwyaf amddifad drwy ymyriad cynharach, a fydd yn cefnogi'r uchelgais i wella mil diwrnod cyntaf ein plant mwyaf agored i niwed
- cydweithio â phartneriaid i nodi'r ffyrdd mwyaf effeithiol o fesur a gwella lles dysgwyr; byddwn hefyd yn atgyfnerthu gwaith ysgolion a'u partneriaid er mwyn gwella trefniadau diogelu a chydnerthedd pob dysgwr ac yn defnyddio dulliau gweithredu a gynlluniwyd i leihau nifer yr achosion o ymddygiad negyddol yn yr ystafell ddosbarth, ac o bosibl yn ddiweddarach mewn bywyd
- sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn addysg mewn unedau cyfeirio disgyblion, yn cael eu cefnogi'n well i lwyddo drwy feithrin cydweithio gwell gyda'r nod o wella darpariaeth a deilliannau yn sylweddol i'r dysgwyr hynny
- adeiladu ar lwyddiant Rhwydwaith Seren, a gynlluniwyd i helpu disgyblion chweched dosbarth disgleiriaf Cymru er mwyn cyflwyno darpariaeth well i'n dysgwyr iau mwyaf abl, gan godi safonau i bawb
- cefnogi rhaglenni dysgu yn yr haf o safon, gan sicrhau nad yw ein pobl ifanc yn colli tir o ran eu dysgu yn ystod yr haf, er mwyn helpu i leihau'r bwlch cyrhaeddiad
- adeiladu ar ein hymrwymiad i degwch mewn addysg drwy gyflwyno fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer nodi a chefnogi dysgwyr drwy Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), a luniwyd i atgyfnerthu darpariaeth ledled Cymru i bob dysgwr ag ADY, ym mhob lleoliad iaith
- cefnogi ysgolion i weithio'n fwy effeithiol gyda byrddau iechyd lleol er mwyn gwella darpariaeth i ddysgwyr mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â'u hiechyd meddwl

- sefydlu Gwaddol Cenedlaethol dros Gerddoriaeth er mwyn sicrhau bod ein holl bobl ifanc, o bob cefndir, yn gallu meithrin eu doniau a'u sgiliau drwy gerddoriaeth
- gweithredu Siarter Gwaith Ieuencid Cymru a sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cymorth Ieuencid Cenedlaethol a gadeirir yn annibynnol er mwyn sicrhau gweledigaeth a rennir ar gyfer gwaith ieuencid effeithiol
- darparu cyngor a chyfarwyddyd annibynnol ansawdd uchel ynghylch gyrfaedd i bobl ifanc i'w helpu i wneud dewisiadau dysgu cadarn, datblygu eu cymwyseddau rheoli gyrfaedd a llwyddo yn y byd gwaith.

I asesu cynnydd yn y maes hwn, byddwn yn:

- cydweithio â'n partneriaid allweddol yng Nghymru a thu hwnt i nodi ffyrdd o fesur cynnydd o ran lles dysgwyr
- datblygu a defnyddio arolygon effeithiol o ddysgwyr, y gweithlu a rhieni
- meincnodi'n effeithiol yng Nghymru a chyda'n partneriaid rhyngwladol
- sicrhau bod polisiau'n cael eu llywio gan dystiolaeth a bod y broses o'u rhoi ar waith yn agored i werthuso rheolaidd
- monitro perfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr, gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael, gyda ffocws penodol ar leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion.

I roi ein cynllun ar waith, byddwn yn gwneud y canlynol.

<ul style="list-style-type: none"> • Ehangu'r Grant Datblygu Disgyblion o fis Ebrill 2017. • Gweithio ar basio Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drwy brosesau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. • Cyhoeddi'r adolygiad blynyddol cyntaf o'r Strategaeth Addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. • Cryfhau gwaith partneriaeth er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn addysg mewn unedau cyfeirio disgyblion. • Darparu cymorth iechyd meddwl i ysgolion a dysgwyr, mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol, gan ddechrau gyda chynlluniau peilot rhanbarthol. • Cefnogi gweithgareddau i wella dysgu yn yr haf. • Sefydlu Gwaddol Cenedlaethol dros Gerddoriaeth. 	<p>Yn ystod hydref 2017</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso ein ffrydiau cyllido gwaith ieuencid. • Nodi a rhannu arfer da mewn perthynas â chwswela yn yr ysgol. • Sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cymorth Ieuencid Cenedlaethol a gadeirir yn annibynnol. • Datblygu a chynnig darpariaeth i bennu a chefnogi ein dysgwyr mwy abl. 	<p>Erbyn gwanwyn 2018</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio â phartneriaid, yng Nghymru a thu hwnt, ar ffyrdd effeithiol o fesur lles dysgwyr. • Ystyried cyflwyno asesiadau o ddigonolrwydd gwaith ieuencid. • Cefnogi partneriaid allweddol i ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn galluogi ymarferwyr allweddol i ddod yn ymwybodol o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod. 	<p>Erbyn hydref 2018</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Yn amodol ar gael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), cyflwyno cod a rheoliadau ADY newydd i fod yn sail i'r fframwaith statudol. • Gweithredu Siarter Gwaith Ieuencid Cymru. 	<p>Erbyn hydref 2019</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio â phartneriaid allweddol i roi ein rhaglenni trawsnewid ADY ar waith. 	<p>Yn ystod 2019/20 – dyddiad yn amodol ar ymgynghori</p>

Rydym wedi ymrwymo i lwyddiant a lles pob dysgwr. Credwn mewn system sy'n cyfuno tegwch â rhagoriaeth.



Amcan galluogi 4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella

Er mwyn sicrhau y caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno'n effeithiol, rhaid i ni fod yn glir ynghylch y pethau rydym yn dymuno rhoi gwerth arnynt a'u mesur ym mhob rhan o'r system – mewn perthynas â dysgwyr a'u hathrawon, ysgolion a'u harweinwyr a'r ystod o bartneriaid sy'n cyflawni rôl allweddol yn y system.

Yn ogystal â rhoi gwerth ar agweddau newydd ar ddysgu a'u mesur, rydym wedi ymrwmo i sicrhau y byddwn hefyd yn rhoi gwerth ar ysgolion sy'n cydweithio ac sy'n cefnogi ei gilydd. Mae angen hyn er mwyn i Gymru allu symud ymlaen fel cymuned o addysgwyr a chyflawni pethau gwych dros ein pobl ifanc.

Drwy ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a datblygu ar y cyd, byddwn yn creu fframwaith asesu a gwerthuso cydlynol a fydd yn sicrhau atebolrwydd effeithiol ym mhob rhan o'r system addysg fel bod pob partner yn chwarae rhan lawn yn y broses o gyflawni'r gorau dros ein dysgwyr a'u hathrawon. Gan gydweithio â phartneriaid allweddol, byddwn yn sicrhau bod ysgolion bach a gwledig yn cael eu cefnogi'n well i chwarae eu rhan lawn mewn system hunanwella gydweithredol i ysgolion.

Hyd yma, rydym wedi:

- datblygu model rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, yn seiliedig ar lawer o egwyddorion system hunanwella, sydd bellach yn ein galluogi i gynllunio ar y cyd ar gyfer y cwricwlwm newydd
- atgyfnerthu'r cysyniad o system hunanwella drwy ddatblygu rôl ysgolion wrth arwain eraill, e.e. y Rhwydwaith Arloesi, y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion a'i ffocws ar gymorth, y partneriaethau addysg gychwynnol athrawon sy'n datblygu, y nifer gynyddol o ysgolion sydd wedi ymrwmo i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu, a llawer o fentrau sydd wedi'u cynllunio i rannu arbenigedd arwain neu arbenigedd pwnc
- ymwneud yn helaeth â gwaith datblygu polisïau ar y cyd ym mhob rhan o fodel tair haen system addysg Cymru (gweler y model ar dudalen 10), gyda dealltwriaeth gynyddol a rennir rhwng y tair haen – Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol/gwasanaethau rhanbarthol a phartneriaid eraill, ac ysgolion.

System hunanwella

Mae system hunanwella yn un lle mae arweinwyr ysgolion ac athrawon yn meddu ar y sgiliau, y gallu a'r ymrwymiad i ddysgu'n barhaus a gwella eu hymarfer fel bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial ac yn barod am fywyd mewn byd cynyddol gymhleth.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae ysgolion wedi dod yn well o ran rhannu eu harfer gorau er budd pob dysgwr. Yn ein system hunanwella yng Nghymru, mae angen i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad ddod yn ymwybodol o'i gryfderau ei hun a'r meysydd i'w gwella ac, o wybod hyn, geisio cymorth i wella ei hun a chynnig cymorth i eraill wella.

Ein huchelgais a'n disgwyliad yw y bydd pob rhan o'r system addysg yn dod yn gyfranogwyr yn y model hwn, fel bod cryfderau drwy'r system gyfan ac yr ymdrinnir â meysydd i'w gwella drwy gymorth cyfoedion ac ymgysylltu â hwy.

Wrth gyflawni hyn byddwn yn sicrhau bod ein gweithwyr addysg proffesiynol yn gallu ffynnu mewn amgylchedd cefnogol a chydweithredol er mwyn codi safonau a sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cyflawni ei botensial.

- datblygu sail wybodaeth, arbenigedd ac ymchwil y system hunanwella drwy gefnogi cydweithio o fewn ysgolion, consortia rhanbarthol a sefydliadau addysg uwch, a rhyngddynt, ac ymrwymo i rannu tystiolaeth ymchwil ac ymarfer effeithiol ym mhob rhan o'r system
- cynyddu ymgysylltu rhwng prifysgolion ac ysgolion y tu hwnt i addysg gychwynnol athrawon ac adeiladu ar eu rôl o ran cefnogi proffesiwn sy'n ymwneud ag ymchwil; wrth gydweithio â sefydliadau addysg uwch, rydym yn disgwyl adeiladu ar lwyddiant rhaglenni fel y rhai a gynhelir ym maes ieithoedd tramor modern, gan gyflwyno'r Prosiect Mentora Myfyrwyr i ddisgyblaethau eraill
- gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth, dysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion a dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol drwy hybu'r gwaith o ehangu'r model hunanwella i'r lleoliadau hynny
- datblygu dull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas ag ysgolion bach a gwledig o fewn y system hunanwella.

I asesu cynnydd yn y maes hwn, byddwn yn:

- casglu tystiolaeth o welliant system gyfan drwy fesurau y cytunwyd arnynt
- monitro'r ffordd y mae cydweithio rhwng ysgolion a'u partneriaid yn cryfhau
- mesur twf ymchwil addysgol yng Nghymru er mwyn cefnogi cydweithio yn well
- parhau i fod yn agored i gyngor a chraffu allanol ym mhob rhan o'r system.


Yn ystod y cyfnod tan 2021, byddwn yn:

- datblygu trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd diwygiedig sy'n canolbwyntio ar waith allweddol ysgolion a phob haen arall yn y system er mwyn cyflawni'r gorau i bob dysgwr; bydd hyn yn sail i ddull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas â'r system hunanwella, fel bod pob ysgol yn tyfu fel sefydliad sy'n dysgu ac yn cael ei hannog i rannu ei phrofiad er budd pob dysgwr, gan gynnwys drwy ffederasiynau

I roi ein cynllun ar waith, byddwn yn gwneud y canlynol.

<ul style="list-style-type: none"> • Dathlu ein llwyddiannau gyda gweithgareddau fel Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru. 	O fis Mai 2017
<ul style="list-style-type: none"> • Ymateb i adolygiad Cymwysterau Cymru o sefyll TGAU yn gynnar, a chymryd camau gweithredu lle y bo'n briodol. • Cytuno ar drefniadau asesu a gwerthuso trosiannol gydag ysgolion er mwyn cefnogi cydweithio cryfach rhwng ysgolion a sicrhau bod safonau yn codi ar gyfer ein holl ddysgwyr. • Rhoi cymorth ac arweiniad i ysgolion a'u cymell i ffederaleiddio. • Ymgynghori ynghylch newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion er mwyn sicrhau bod pob opsiwn ymarferol, gan gynnwys ffederaleiddio, wedi cael ei ystyried cyn cau ysgol fach neu wledig. • Cyflwyno grant ysgolion bach a gwledig i gefnogi mwy o gydweithio rhwng ysgolion. 	Yn ystod hydref 2017
<ul style="list-style-type: none"> • Cytuno ar fodel asesu a gwerthuso tymor hirach ar gyfer ysgolion a fydd yn nodi yn glir beth mae ysgolion yn atebol amdano ac yn annog pob ysgol i anelu at sicrhau llwyddiant ein holl ddysgwyr yn ein cyd-destun sy'n newid. 	Erbyn haf 2018
<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi fframwaith asesu a gwerthuso ar gyfer y system addysg gyfan, gan ddangos yn glir beth mae pob rhan o'r system yn gyfrifol amdano, gan sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu dyrannu'n briodol a bod atebolrwydd yn glir, er mwyn gwreiddio cydweithio a chodi safonau i'n holl ddysgwyr. • Cyhoeddi'r Cerdyn Adrodd blynyddol cyntaf ar gyfer Addysg yng Nghymru. 	Yn ystod hydref 2018

Am y tro cyntaf ers cenhedlaeth, mae addysgwyr ym mhob rhan o'n system yn cydweithio i lunio gweledigaeth newydd ac arloesol ar gyfer ein hysgolion.



Dylai pob plentyn gael ei addysgu mewn system ysgolion sy'n pennu disgwyliadau uchel ar gyfer ein holl ddysgwyr ac athrawon.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Caiff *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21*, ei weithredu yn unol â phum egwyddor gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- **Hirdymor:** Dyma ddull gweithredu hirdymor o ddiwygio addysg yng Nghymru. Bydd anghenion byrdymor y system addysg yn cael eu pwysu a'u mesur yn barhaus yn erbyn yr anghenion tymor hwy fel y'u hamlinellir yn y cynllun hwn
- **Atal:** Byddwn yn ceisio parhau â'r pwyslais ar atal, o ran ymyriadau cynnar gyda phlant er mwyn lleihau'r risg o anawsterau yn ddiweddarach mewn bywyd. Bydd dulliau gweithredu fel y rhai a gynlluniwyd i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrofiadau andwyol yn ystod plentyndod a'r rhai sydd â'r nod o wella ansawdd mil diwrnod cyntaf bywyd plentyn (o genhedlu tan ei fod yn ddwy oed) yn sail i'n dulliau gweithredu mewn perthynas â lles mewn ymdrech i sicrhau cyn lleied â phosibl o risg y bydd heriau yn ystod plentyndod yn datblygu'n anawsterau sylweddol, boed yn anawsterau oedolion neu'n anawsterau rhwng y cenedlaethau, i'r plant hynny yn ddiweddarach mewn bywyd.
- **Integreiddio:** Bydd y cynllun yn arwain at ddatblygu partneriaethau allweddol a fydd yn dangos lefel o integreiddio nas gwelwyd erioed o'r blaen ym mhob rhan o'r system. Mae awdurdodau lleol, gwasanaethau rhanbarthol, sefydliadau addysg uwch, grwpiau o ysgolion a gweithwyr iechyd proffesiynol yn dod yn gyfranogwyr cynyddol weithgar yn y gwaith cynllunio wrth i ni geisio datblygu dulliau traws-sector o roi'r cynllun ar waith.
- **Cydweithio:** Mae cydweithio eisoes i'w weld gyda llawer o waith yn cael ei wneud ar y cyd mewn perthynas â chynlluniau gweithredu a dylunio. O dan y cynllun rydym yn ymrwymo i hybu gweddnewid drwy arloesi cydweithredol a gwella'r system gyfan er budd pob dysgwr.
- **Cynnwys partneriaid:** Rydym wedi cynnwys partneriaid sydd â diddordeb yn ein hagenda ddiwygio, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen am gymorth parhaus gan ymarferwyr effeithiol a mewnbwn gan arbenigwyr eraill. Mae ysgolion a'r proffesiwn addysgu wrth wraidd y gwaith cynllunio a nhw fydd yn sicrhau'r gweddnewid ac yn gweithio i adlewyrchu amrywiaeth yr ardaloedd y maent yn gweithio ynddynt.

Bydd cyfrifoldeb cyfunol arnom i ysbrydoli, ysgogi ac ennyn diddordeb y genhedlaeth nesaf o ddysgwyr wrth i ni geisio datblygu Cymru fwy disglair a ffyniannus.

Amcanion lles

Bydd y ddogfen hon, *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21*, yn ceisio ategu pob amcan lles.

- Cefnogi pobl a busnesau i roi hwb i ffyniant.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hybu gwaith teg.
- Rhoi hwb i dwf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
- Darparu gwasanaethau iechyd a gofal sy'n addas at y dyfodol.
- Hybu iechyd a lles da i bawb.
- Meithrin cymunedau iachach a chreu amgylcheddau gwell.
- Cefnogi pobl ifanc i gyrraedd eu potensial.
- Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes.
- Sicrhau bod pawb yn meddu ar y sgiliau iawn ar gyfer byd sy'n newid.
- Meithrin cymunedau, diwylliant ac iaith cydnerth.
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig.
- Hyrwyddo ac amddiffyn lle Cymru yn y byd.



Casgliad

Mae *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* yn nodi ein nod hirdymor o adeiladu Cymru iach ac egniol, ffyniannus a diogel, uchelgeisiol ac sy'n dysgu, unedig a chysylltiedig.

“ Yn sicr, mae Cymru, a'r byd, yn wynebu heriau sylweddol a newid cyflym. Yn wyneb gweddnewid economaidd a thechnolegol enfawr, ni all ein system addysg sefyll yn ei hunfan. Yn syml, nid yw gwneud dim yn opsiwn.

Gyda'i gilydd, bydd ein diwygiadau yn mynd i'r afael â'r heriau hyn ac yn bodloni'r disgwyliadau uchel rydym i gyd yn eu rhannu ar gyfer ein pobl ifanc. Mae'n gyfnod cyffrous i fyd addysg yng Nghymru.

Am y tro cyntaf ers cenhadaeth, mae addysgwyr ym mhob rhan o'n system yn cydweithio i lunio gweledigaeth newydd ac arloesol ar gyfer ein hysgolion. Rhaid i ni achub ar y cyfle i greu rhywbeth a fydd yn destun edmygedd ledled y byd. Mae'n gynllun sy'n gallu ein helpu i sicrhau system ysgolion a fydd yn meithrin uchelgais yn ein dysgwyr i wneud y mwyaf o'u potensial, yn gosod sylfaen dros ddysgu a chyflawni gydol oes, ac yn rhoi'r sgiliau cywir iddynt ar gyfer byd sy'n newid.


Mae'r weledigaeth newydd hon ar gyfer addysg yng Nghymru yn seiliedig ar ein cwricwlwm sy'n datblygu a fydd yn grymuso'r gweithlu addysg i arwain y gwaith o'n symud ymlaen. Rhaid i ni fod yn hyderus i bennu disgwyliadau uchel, gan godi safonau i bawb a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Drwy wneud hyn, byddwn yn chwalu rhwystrau ac yn rhyddhau'r potensial sydd gan bob un o'n dysgwyr a'r gweithlu addysg.

Fodd bynnag, rhaid i ni beidio ag anghofio'r sylfeini cadarn y mae ein cynllun gweithredu ar gyfer cenhadaeth ein cenedl yn seiliedig arnynt. Mae llawer wedi cael ei gyflawni mewn cyfnod byr a gallwn fod yn falch o'r ffaith ein bod eisoes yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ac o'n hymrwymiad newydd i gydweithio ac arloesi.

Bydd cyfrifoldeb cyfunol arnom i ysbrydoli, ysgogi ac ennyn diddordeb y genhedlaeth nesaf o ddysgwyr wrth i ni geisio datblygu Cymru fwy disglair a ffyniannus. Rydym yn byw mewn cyfnod heriol ac ni fydd yn hawdd datblygu system y bydd pob un ohonom yn ymfalchïo ynddi. Ond rydym yn falch bod ein gweledigaeth ar gyfer addysg yn uchelgeisiol.

Mae angen unigolion tosturiol a chyflawn ar ein cenedl, unigolion sydd nid yn unig yn meddu ar ddealltwriaeth dda o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ond hefyd y sgiliau meddwl beirniadol, y dychymyg a'r cydnerthedd i ragori yn swyddi newydd y dyfodol, a chreu'r swyddi hynny hefyd. Rhaid i ni sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed ac nad yw'r un plentyn yn cael ei adael ar ôl.

Mae nawr yn amser gwell nag erioed i fod yn y sector addysg yng Nghymru, ond rhaid i bob un ohonom chwarae ein rhan. Nawr yw'r amser i wneud gwahaniaeth. Gyda'n gilydd gallwn gyflawni cenhadaeth ein cenedl. ”



Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y
Cabinet dros Addysg



Rhagor o wybodaeth



Mae *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (2017)* yn nodi'r nod hirdymor o adeiladu Cymru iach ac egniol, ffyniannus a diogel, uchelgeisiol ac sy'n dysgu, unedig a chysylltiedig.
gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf



Roedd *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru (2014)* yn nodi'r meysydd datblygu allweddol o 2014, gan gynnwys y newid tuag at fodel system hunanwella.
gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/education-in-wales/?lang=cy



Mae *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes (2015)* yn adeiladu ar gynigion yr Athro Graham Donaldson ar gyfer cwricwlwm a dulliau asesu newydd i Gymru, yn seiliedig ar bedwar diben allweddol.
gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-cy.pdf



Roedd *Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru (2015)* yn amlinellu cynigion yr Athro John Furlong ar gyfer diwygio addysg gychwynnol athrawon.
gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy



Mae *Symud Cymru Ymlaen 2016–2021 (2016)* yn nodi blaenoriaethau ar gyfer sicrhau Cymru sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu.
gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf



Mae'r *Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol* yn amlinellu egwyddorion i weddnewid y broses o wella ysgolion yng Nghymru.
gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/?lang=cy



Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn nodi nodau lles clir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.
gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy



Mae'r *Cytundeb Blaengar* yn amlinellu'r cytundeb rhwng y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, lle y gwnaethant gytuno i gydweithio er mwyn cyflwyno nifer o gynigion uchelgeisiol ac arloesol.
gov.wales/newsroom/firstminister/2016/160623-working-together-to-take-wales-forward/?skip=1&lang=cy